NSPCC




# Pencampwyr plentyndod

## Pecyn cyngor ysgol

Mae'r pecyn hwn yn llawn gwybodaeth am waith pwysig yr NSPCC. Mae'n gadael i chi wybod sut gallwch chi helpu drwy godi arian.

MAE POB PLENTYNDOD WERTH BRWYDRO DROSTO

# Beth mae'r NSPCC yn ei wneud?

**Mae'r NSPCC yn griw o bobl o bob rhan o'r wlad sy'n gweithio gyda'n gilydd i helpu i gadw plant yn ddiogel.**

**Mae'r NSPCC yn credu bod gan bob plentyn hawl i'r canlynol:**

- ✓ dweud a chael ei glywed
- ✓ bod yn ddiogel
- ✓ cael help pan fydd ei angen.




**Oeddech chi'n gwybod?**

## Mae 1 plentyn o bob 10 wedi cael ei esgeuluso

**Esgeulustod yw:**

- Pan dydy rhiant neu ofalwr ddim yn gofalu am blentyn yn iawn.
- Pan dydy plentyn ddim yn cael digon o fwyd, diod na'r math iawn o ddillad.
- Pan mae plentyn yn cael ei adael ar ei ben ei hun am ormod o amser.



**Oeddech chi'n gwybod?**

## Roedd Childline wedi cyflwyno dros 200,000 o sesiynau cwnsela i blant yn 2020/21

Mae Childline yn un o wasanaethau'r NSPCC, a gall plant gysylltu â ni waeth beth sy'n eu poeni.



Pecyn cyngor ysgol

# Sut mae'r NSPCC yn helpu?

## Cofia ddweud. Cadwa'n ddiogel.




*Mae Cofia ddweud. Cadwa'n ddiogel.* yn rhaglen ddiogelu ar-lein sydd ar gael i bob ysgol gynradd yn y DU ac Ynysoedd y Sianel.

Mae negeseuon pwysig yn cael eu rhannu mewn ffordd hwyliog a rhyngweithiol drwy ffilmiau yn ystod gwasanaethau ac adnoddau ategol – gan helpu plant i ddeall beth yw cam-drin ac at bwy gallan nhw droi am help os bydd angen.

## Gwasanaethau lleol yr NSPCC



Ledled y DU ac Ynysoedd y Sianel rydyn ni'n helpu plant sydd wedi cael eu cam-drin ac yn cefnogi teuluoedd i ofalu am eu plant.

Rydyn ni hefyd yn cefnogi cymunedau i helpu i atal cam-drin rhag digwydd.

## Llinell Gymorth yr NSPCC



Os yw oedolyn yn poeni bod plentyn mewn perygl, gall ffonio'r NSPCC am gymorth 365 diwrnod y flwyddyn.

## Lobïo'r Llywodraeth




Mae hyn yn golygu ein bod yn siarad â'r llywodraeth ac yn gofyn iddyn nhw newid deddfau i wneud ein cymdeithas yn fwy diogel i blant.

Rydyn ni'n gwneud hyn oherwydd ein bod am i bob plentyn fod yn ddiogel ac yn hapus.

## Childline

Os yw plant neu bobl ifanc yn poeni, gallan nhw siarad â Childline, sef gwasanaeth arbennig i blant lle gallan nhw gael cymorth.

Beth bynnag sy'n eu poeni, bydd Childline yn gwrando'n astud ac yn ymddiried yn yr hyn sy'n cael ei ddweud. Does dim un broblem yn rhy fawr nac yn rhy fach ac maen nhw'n gallu cysylltu bob dydd o'r flwyddyn, ar unrhyw adeg.



# Beth mae plant yn ei ddweud am yr NSPCC?



**“Mae’r NSPCC yn helpu llawer o blant ac yn rhoi gwên ar eu hwyneb.”**

**“Mae wedi ein helpu ni i ddysgu mwy am fod yn ddiogel ac yn hapus, ac i wybod beth i’w wneud pan fydd angen help arnom.”**

**Lucy**, 11 oed, gwasanaeth
*Cofia ddweud. Cadwa’n ddiogel.*

**“Mi wnes i fwynhau’n arw, Roeddwn i’n hoffi Buddy. Roedd o’n cŵl, ac mi  wnaeth fy ffrindiau i gyd fwynhau hefyd. Y GWASANAETH GORAU ERIOED!!!!!!”**

Plentyn a wyliodd wasanaeth
*Cofia ddweud. Cadwa’n ddiogel.*

Pecyn cyngor ysgol

# Sut allwch chi helpu

## Yn helpu plant ers 130 o flynyddoedd

**Mae'r NSPCC wedi newid cryn dipyn ers y cychwyn, ond yr un yw ein nod: cadw plant yn hapus ac yn ddiogel.**

Ers dros 130 o flynyddoedd, mae plant wedi helpu plant eraill drwy godi arian i'r NSPCC.

Yn y 1880au, pan oedd y Frenhines Mary yn ei harddegau, byddai'n anfon cyfraniadau at yr NSPCC a byddai'n annog ei ffrindiau i gefnogi gwaith yr NSPCC. Heddiw, mae miloedd o blant ac oedolion hael yn helpu i godi arian i helpu i gadw plant yn ddiogel.




## Ysgolion yn codi arian i'r NSPCC

Ers 1981, rydyn ni wedi gwahodd miloedd o ysgolion a phlant i'n helpu drwy gymryd rhan yn un o'n gweithgareddau – drwy godi arian a chael hwyl ar yr un pryd!

Ers i'r NSPCC ddechrau, rydyn ni wedi helpu miliynau o blant. Mae pob punt sy'n cael ei chodi yn ein helpu i barhau i fod yno i blant – nawr, ac yn y blynyddoedd i ddod.

Helpwch ni i helpu mwy o blant.



## Elusen y flwyddyn

Dewiswch yr NSPCC fel elusen eich ysgol am y flwyddyn a chodi arian drwy gydol y flwyddyn i ariannu ein gwasanaethau hanfodol. Gallech chi benderfynu ar darged codi arian a chynnal digwyddiadau codi arian i geisio cyrraedd y nod.



Pecyn cyngor ysgol

# Sut gall codi arian helpu


## £25

Gallai hyn dalu am becynnau celf a chrefft i blant eu defnyddio yn ystod sesiynau cwnsela i esbonio sut maen nhw'n teimlo.



## £50

Gallai hyn dalu am bwll tywod a theganau. Mae chwarae gyda thywod yn gallu helpu plentyn i ymdawelu a theimlo'n hapus eto.




## £150

Gallai hyn ein helpu ni i ateb 30 galwad gan oedolion a rhieni sy'n ffonio Llinell Gymorth yr NSPCC pan fyddan nhw'n poeni am blentyn.



## £400

Gallai hyn dalu i Gwnselydd Childline ateb 100 galwad gan blant sydd ein hangen ni.



## £500

Gallai hyn helpu ein Gwasanaeth Ysgolion i ddysgu plant sut mae deall cam-drin ac esgeulustod.



## £1,600

Gallai hyn recriwtio a hyfforddi cwnselydd gwirfoddol ar gyfer Childline, a fydd yma i blant – beth bynnag sy'n eu poeni.




## £2,500

Gallai hyn helpu ein Gwasanaeth Ysgolion i rymuso plant i siarad os ydyn nhw'n poeni am unrhyw beth.




## £4,000

Gallai hyn helpu ymarferydd hyfforddedig i gefnogi plant sy'n dod dros cael eu cam-drin.



# DIOLCH!

## o galon







©NSPCC 2015. Rhifau cofrestru'r elusen yng Nghymru a Lloegr 216401, yr Alban SC037717 a Jersey 384. Ffotograffau gan Tom Hull.
Modelau a gwirfoddolwyr yw'r plant yn y llun. Darluniau gan Jamie Nash a Alice Bowsher. J20211258.